Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (23)

Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 22 Hydref 2002

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

Ethol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd
NDM1175 **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol David Ian Jones (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn lle David Davies (Ceidwadwyr).

Cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32
Derbyniwyd y cynnig

Ethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
NDM1176 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwyr) i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. – ***Ni chynigiwyd y cynnig hwn***

Hysbysodd y Llywydd y Cynulliad bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu ato yn gofyn i'r Llywydd gytuno iddo ef a'r Dirprwy Brif Weinidog fod yn absennol, ac i'r Trefnydd ateb cwestiynau'r Prif Weinidog.

2.01pm
Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog
Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Grwpiwyd cwestiynau 1 a 10 i'w hateb gyda'i gilydd.

2.41pm
Gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar Bolisi Chwarae.

3.02pm
Datganiad Busnes: Y Trefnydd
Oherwydd bod mwy na 10 aelod wedi gwrthwynebu'r datganiad busnes, cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 51
Cytunwyd ar y datganiad busnes.

3.07pm
Pwynt o drefn
Rhodri Glyn Thomas ar ymddygiad Gweinidogion mewn Pwyllgorau**.**
Cyfeiriodd **y Llywydd** y mater at Banel y Cadeiryddion.

3.20pm

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Diwygio) 2002 dan Reol Sefydlog 24
*NDM1177 -C*ynnig bod:
Y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud The Special Educational Needs Tribunal (Amendment) Regulations 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2002.

Cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
Derbyniwyd y cynnig

3.30pm
Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbernnig Rhif 10 ar gael gwared ar oergelloedd
NDM1178 **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif (10) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2002.

Cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
Derbyniwyd y cynnig

3.53pm
Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Adfywio Cymunedol
NDM1179 **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, "Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o Adfywio Cymunedol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

Cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
Derbyniwyd y cynnig

4.26pm
Dadl Plaid Cymru
NDM1180 **-** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn datgan ei bryder mawr ynghylch y colli swyddi a fu yng nghymunedau Cymru dros y misoedd diwethaf a'r tueddiad parhaus i'r ifainc a'r economaidd weithgar adael Cymru;

2. yn gresynu at y ffaith fod y bwlch ffyniant rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol yn parhau i ledu, er bod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gael yng Nghymru;

3. yn nodi'r dadrithiad cyffredinol ynghylch methiant Llywodraeth Cymru i ddyfeisio a gweithredu strategaeth gredadwy i hyrwyddo adfywiad economaidd;

4. yn galw am i bolisi economaidd yng Nghymru gael ei seilio ar yr angen i wasgaru ffyniant i bob rhanbarth; cynyddu'r pwyslais ar fusnesau cynhenid; strategaeth i wella ansawdd swyddi a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol; ac i wella'n radical y broses geisio a phenderfynu yn rhaglen Amcan Un.

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:

Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)
Dileu popeth ar ôl y geiriau "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi, yn lle hynny:
Yn croesawu'r dystiolaeth ddiweddar am y cynnydd yn y lefelau o weithgarwch economaidd a chyflogaeth yng Nghymru, ac yn cadarnhau ei gefnogaeth i strategaeth Llywodraeth y Cynulliad - "Cymru'n Ennill" - er mwyn annog busnesau cynhenid ac arloesol, gwella ansawdd swyddi, estyn cyfle i bob rhan o Gymru a manteisio'n llawn ar y Rhaglen Amcan Un.

Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)
Ym mhwynt 4;
Dileu "yn galw am i bolisi economaidd yng Nghymru gael ei seilio ar yr angen i wasgaru ffyniant i bob rhanbarth;" a rhoi "yn galw ar bob rhanbarth i gael eu trin yn gyfartal o ran cwrdd â'r argyfwng economaidd ac i bolisïau gael eu seilio" yn ei le.

Gwelliant 1
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 24; Cyfanswm 54
Derbyniwyd gwelliant 1

Derbyniwyd gwelliant 1 felly gwrthodwyd gwelliant 2

Y cynnig, fel y'i diwygiwyd
O Blaid 30; Ymatal 0;Yn erbyn 24; Cyfanswm 54
Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd

Daeth y cyfarfod i ben am 5.31pm

****

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mercher, 23 Hydref 2002

E P Silk

Clerc y Cynulliad

DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

Dogfennau a osodwyd ar 22 Hydref 2002

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002 - LD1632
Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1633

Dogfennau a osodwyd ar 21 Hydref 2002

Osiris: Y Contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - LD1631

Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau

Dogfennau a osodwyd ar 15 Hydref 2002

LC530 - Rheoliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid (Cynnyrch o Darddiad Anifeiliaid o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif.1798 (W173) - LD1613
LC531 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2002, 2002 Rhif. 2171 (W218) - LD1614
LC532 - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Diwygio) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2060 (W.209) - LD1615
LC533 - Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2022 (W.206) - LD1616
LC534 - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002, OS 2002 Rhif 2061 (W.210) - LD1617
LC535 - Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2024 (W.208) (C.65) - LD1618
LC536 - Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) [(Cymru)] 2002, OS 2002 Rhif 2023 (W.207) - LD1619
LC538 - Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2199 (W.219) - LD1620
LC539 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2258 (W.222) - LD1621
LC540 - Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002 OS 2002 Rhif 2295 (W.224) - LD1622
LC541 - Rheoliadau Diogelu Dr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2297 (W. 226) - LD1623

LC542 - Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2296 (W.225) - LD1624

LC544 - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2)

2002, OS 2002 Rhif 2304 (W.229) - LD1625

LC545 - Gorchymyn Moch (Cofnodion, Nodi a Symud) (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) 2002 OS 2002 Rhif 2303 (W.228) - LD1626

LC546 - Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 - LD1627

LC547 - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002 - LD1628

LC548 - Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002 - LD1629